## ATODLEN 6

### Gorchmynion adran 97 a 102 o dan Ddeddf 1990

**8.** Rhaid darllen rheoliad 16 fel pe bai'n darparu—

"**16.**—(1) Pan fo datganiad, y cyfeirir ato fel datganiad amgylcheddol, wedi ei baratoi gan gorff cychwyn mewn perthynas â datblygiad sy'n ymwneud â gorchymyn adran 97 neu orchymyn adran 102, rhaid i'r corff hwnnw—

(a) anfon copi o'r gorchymyn adran 97 drafft neu'r gorchymyn adran 102 drafft a'r datganiad i'r ymgynghoreion a'u hysbysu y cânt gyflwyno sylwadau; a

(b) hysbysu unrhyw berson penodol y mae'r corff yn ymwybodol ohono ac sy'n debygol o gael ei effeithio gan y gorchymyn drafft, neu sydd â diddordeb yn y gorchymyn drafft, ac sy'n annhebygol o ddod yn ymwybodol ohono drwy gyfrwng cyhoeddiad electronig, hysbysiad ar y safle neu drwy hysbyseb lleol, o—

(i) cyfeiriad yn yr ardal leol lle gellir cael copi o'r gorchymyn drafft a'r datganiad; a

(ii) y cyfeiriad y caniateir anfon sylwadau iddo.

(2) Ni chaiff y corff cychwyn wneud y gorchymyn hyd nes diwedd 21 diwrnod o'r dyddiad olaf y cyflwynwyd copi o'r datganiad yn unol â'r rheoliad hwn.

(3) Pan fo'r awdurdod cynllunio lleol yn paratoi datganiad amgylcheddol, rhaid iddo anfon un copi o bob un o unrhyw farn sgrinio, datganiad o resymau a gorchymyn drafft perthnasol i Weinidogion Cymru o fewn 14 diwrnod i anfon y datganiad i'r ymgynghoreion."